Panel 3 2/08/06 10:42 am Page 1

PAUL SANDBY

CAREER PORTFOLIO

Paul Sandby worked in many media: watercolour, gouache, and oils, but it was his aquatints that had a lasting influence on the development of British landscape art.

The aquatint is a print, but without the lined effect typical of eighteenth century engravings. Sandby developed the process of making aquatints so that he could recreate in a print the look of a watercolour with varied tones and delicate patterns. This ability to produce watercolour style prints in his *XII Views in North Wales,* without the constraints on design and composition of traditional printmaking, made his work very influential. The fluid designs of his aquatints were ideally suited to late 18th century artistic taste.

Sandby realistically recreates the rays of sun breaking through the clouds in this aquatint of the Vale of Llangollen.

Mae Sandby yn ailgreu pelydrau'r haul yn treiddio drwy'r cymylau yn realistig yn yr acwatint hwn o Ddyffryn Llangollen.

©Llyfrgell Genedlaethol Cymru - National Library of Wales

Sandby sketched at every opportunity whilst on the tour of North Wales. He sketched sites such as Conway and Caernarvon castles from many different angles. Later, back in the studio he would rework these basic sketches into aquatints and finished paintings. He must have had a wonderful visual memory as he was still creating new works of art based on these sketches nearly forty years later.

Art historians have described Sandby as the first artist to fully understand and express the picturesque in art. You can see his imagination at work in his aquatints – heightening mountains, deepening rivers, increasing the size of waterfalls, altering the movements of the sun and shifting the scenery; all to create the perfectly composed landscape.

PAUL SANDBY

PORTFOLIO O'I YRFA

Roedd Paul Sandby yn gweithio mewn nifer o gyfryngau: dyfrlliw, gouache, ac olew, ond ei acwatintau gafodd ddylanwad parhaol ar ddatblygiad celfyddyd tirluniau Prydeinig.

Print yw acwatint, ond heb yr effeithiau llinellol sydd yn nodweddiadol o engrafiadau'r ddeunawfed ganrif. Datblygodd Sandby ddull o wneud acwatintau i'w alluogi i fedru ail-greu edrychiad dyfrlliw, gydag arlliwiau amrywiol a phatrymau cywrain, mewn print. Roedd ei allu i gynhyrchu printiau, a oedd yn ymdebygu i ddyfrlliwiau yn ei *XII Views in North Wales,* heb y cyfyngiadau dylunio a ffurf a oedd yn gysylltiedig â gwneud printiau traddodiadol, yn golygu bod ei waith yn ddylanwadol iawn. Roedd dyluniadau llyfn ei acwatintau yn gweddu'n berffaith i chwaeth gelfyddydol diwedd y 18fed ganrif.

Sandby exploits the ability of aquatint to show a variety of tones and contrasts and so captures the atmosphere of the castle at night.

Mae Sandby yn archwilio gallu'r acwatint i ddangos amrywiaeth o arlliwiau a gwrthgyferbyniadu, ac felly mae'n cyfleu awyrgylch y castell gyda'r nos.

©Llyfrgell Genedlaethol Cymru - National Library of Wales

Yn ystod ei daith i Ogledd Cymru, manteisiodd Sandby ar bob cyfle i dynnu brasluniau. Tynnodd frasluniau o gestyll Conwy a Chaernarfon o nifer o wahanol onglau. Yna, nôl yn ei stiwdio'n ddiweddarach byddai'n ail-weithio'r brasluniau sylfaenol hyn yn acwatintau ac yn beintiadau gorffenedig. Mae'n rhaid bod ganddo gof gweledog gwych oherwydd roedd yn dal i greu gweithiau celf newydd yn seiliedig ar y brasluniau hyn bron ddeugain mlynedd yn ddiweddarach.

Mae haneswyr Celfyddyd wedi disgrifio Sandby fel yr arlunydd cyntaf i lwyr ddeall a chyfleu'r darluniadwy mewn celfyddyd. Gallwch weld ei ddychymyg ar waith yn ei acwatintau – yn mwyhau mynyddoedd, dyfnhau afonydd, cynyddu maint rhaeadrau, newid symudiadau'r haul a symud golygfeydd; y cyfan er mwyn creu tirluniau â ffurf berffaith.

Harlech Castle, Paul Sandby, 1776
© Llyfrgell Genedlaethol Cymru - National Library of Wales

wrexham COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL
wrecsam